**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
**—**
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
**—**
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

19 Mehefin 2024

Annwyl Mark,

Rwy'n amgáu copi o adroddiad diweddaraf y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar Drafnidiaeth Cymru a gwasanaethau rheilffyrdd, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2024.

Fel y gwyddoch, yn ei adroddiad, daw'r Pwyllgor i'r casgliad y dylai Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddu'r Senedd ac Archwilio Cymru ystyried a oes angen i Archwilydd Cyffredinol Cymru graffu ymhellach ar y gwaith o ddarparu gwasanaethau rheilffyrdd a phrosiect moderneiddio Llinellau Craidd y Cymoedd drwy ymgymryd ag astudiaeth gwerth am arian.

Yr amcangyfrif ar gyfer costau'r prosiect oedd £738 miliwn yn 2018, ond mae'r ffigwr hwn wedi cynyddu'n sylweddol ac mae wedi codi £306 miliwn. Roedd y Pwyllgor yn cydnabod bod chwyddiant a digwyddiadau nad oedd modd eu rhagweld, fel pandemig COVID-19 wedi creu heriau difrifol, ond roedd maint y cynnydd yn peri pryder arbennig.

O'n trafodaethau gyda Trafnidiaeth Cymru, daeth i'r amlwg y gellid priodoli tua thraean o'r cynnydd yn y costau i 'gyfyngiadau seilwaith'. Fe'n synnwyd na chafodd cyfyngiadau o'r maint hwn eu rhagweld na'u nodi'n gynharach yn ystod cyfnod cynllunio'r prosiect. Yn ogystal â hyn, roedd Trafnidiaeth Cymru yn honni y gellid gwario £20-30 miliwn yn llai ar y gyllideb ar gyfer metro de

Cymru heb beryglu diogelwch na'r gwasanaethau. Rydym wedi gofyn am ragor o wybodaeth gan Drafnidiaeth Cymru yn y cyswllt hwn.

Wynebodd Trafnidiaeth Cymru heriau ariannol sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys bwlch ariannol o £100 miliwn yn deillio o ddiffyg twf refeniw a ragwelir gan wasanaethau rheilffyrdd. Er bod y cyllid ychwanegol ar gyfer 2024-25 wedi'i "nodi'n sylfaenol" yng nghyllideb TrC ar gyfer y blynyddoedd i ddod, rydym yn parhau i bryderu y bydd TrC a, thrwy estyniad, Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn agored yn ariannol os na fydd refeniw farebox yn dod i'r amlwg ar lefelau disgwyliedig.

O ystyried y buddsoddiad sylweddol a'r risgiau cysylltiedig, credwn y dylai Archwilydd Cyffredinol Cymru ystyried cynnal adolygiad o'r ddarpariaeth o wasanaethau rheilffyrdd ac adolygiad gwerth am arian o brosiect moderneiddio Llinellau Craidd y Cymoedd. Rwyf wedi ysgrifennu at yr Archwilydd Cyffredinol yn gofyn iddo ystyried hyn a byddaf yn rhoi gwybod i chi am ei gasgliadau maes o law.

Byddwn yn hapus i chi drafod y mater hwn yn uniongyrchol gydag Archwilio Cymru ac i'ch Pwyllgor dynnu sylw at unrhyw faterion eraill y dylai'r Archwilydd Cyffredinol eu hystyried.

Cofion gorau,



Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd, a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.